

Eich cyf / Your ref:

Gofynner am / Please ask for:

Miss Isabelle Mariani

Fy nghyf / My ref:

Llinell Uniongyrchol / Direct  
Line:

01267 246617

Dyddiad / Date: 09/04/2019

E-bost Uniongyrchol / Direct  
Email:

[IMariani@sirgar.gov.uk](mailto:IMariani@sirgar.gov.uk)

Annwyl Ymgynghorai,

**Hysbysiad ynghylch Penderfyniad y Cyngor Sir –  
Bwriad i beidio â chynnal Ysgol Gynradd Maes-y-bont**

Ar 4 Ebrill 2019, gyda'r cyfrifoldebau wedi'u dirprwyo i'r Swyddog Gweithredol gan Gyngor Sir Caerfyrddin, gwnaed y penderfyniad i gymeradwyo'r cynnig canlynol:

*Ar ddiwrnod olaf Tymor y Gwanwyn 2019, 28 Ebrill 2019, bydd yr awdurdod yn rhoi'r cynnig ar waith i beidio â chynnal Ysgol Gynradd Maes-y-bont ac o ddechrau Tymor yr Haf 2019, 29 Ebrill 2019, bydd dalgylch Ysgol Gynradd Maes-y-bont yn cael ei ailddynodi a'i gynnwys yn nalgylch presennol yr ysgol gynradd agosaf i gyfeiriad cartref y disgyblion. Cynigir bod y pellter o'r cartref i'r ysgol gynradd agosaf yn cael ei asesu ar yr un sail â Pholisi'r Cyngor o ran Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.*

**Gwrthwynebiadau i'r cynnig-** ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau.

Ystyriwyd y cynnig yn unol â gofynion Côt Trefniadaeth Ysgolion 2018 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a nodwyd nad oedd dim gwrthwynebiad wedi dod i law ynghylch y cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Wrth ddod i benderfyniad ar y cynnig, ystyriodd y Swyddog Gweithredol y ffactorau canlynol fel y'u hamlinellwyd yn nogfen Côt Trefniadaeth Ysgolion 2018 fel a ganlyn:

**Ansawdd a safonau mewn addysg**

Barn yr Awdurdod yw bydd y cynnig hwn yn cynnal a/neu'n gwella'r safonau addysg presennol, caiff hyn ei gadarnhau gan adroddiadau arolygu Estyn a gynhaliwyd yn yr holl ysgolion yr effeithir arnynt gan y penderfyniad hwn.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Wrth gymeradwyo'r cynnig hwn, mae'r Swyddog Gweithredol wedi ystyried a oes lleoedd digonol ar gael a'r galw tebygol am leoedd yn y dyfodol. Nodwyd bod nifer uchel o leoedd gwag yn Ysgol Gynradd Maes-y-bont. Mae'r awdurdod lleol yn fodlon bod digon o leoedd gwag mewn ysgolion cyfagos i ateb y galw.

**Adnoddau addysg**

Wrth wneud y penderfyniad hwn, mae nifer o faterion wedi cael eu hystyried ac, yn benodol nifer isel y disgyblion, diffyg arweinyddiaeth barhaol a'r effaith gysylltiedig ar ddarpariaeth addysg ynghyd â'r costau uchel o gynnal yr ysgol.

**GARETH MORGANS B Ed. M. Sc**

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant  
Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant,  
Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin. SA31 3HB  
Director of Education and Children's Services  
Department for Education and Children,  
Building 2, St. David's Park, Jobs Well Road,  
Carmarthen, Carmarthenshire. SA31 3HB

*Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn croesawu  
gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg  
Carmarthenshire County Council welcomes  
correspondence in Welsh or English*



BUDDSODDWR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

### **Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig**

Mae ail rifyn Côt Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn nodi trefniadau arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig o ran sefydlu rhagdybiaeth drefniadol yn erbyn eu cau. Cafodd Ysgol Gynradd Maes-y-bont ei dynodi'n ysgol wledig a oedd yn golygu ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol ddilyn cyfres fwy manwl o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig.

Ystyrir mai gweithredu'r cynnig i beidio â chynnal Ysgol Gynradd Maes-y-bont yw'r ymateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'r rhesymau a nodwyd wrth lunio'r cynnig oherwydd y ffactorau canlynol:

- Mynd i'r afael â'r lleoedd gwag sylweddol yn Ysgol Gynradd Maes-y-bont
- Yr effeithiau cysylltiedig ar ddarpariaeth addysg yn Ysgol Gynradd Maes-y-bont oherwydd nifer isel y disgyblion.
- Diffyg arweinyddiaeth gynaliadwy heb bennaeth parhaol yn Ysgol Gynradd Maes-y-bont
- Cefnogi Egwyddorion Ôl Troed Addysg Gynradd Cyngor Sir Caerfyrddin.

### **Cyfeirio Penderfyniadau'r Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru**

Os oes unrhyw un o'r cyrff canlynol yn credu y gwnaethpwyd penderfyniad anghywir gan yr Awdurdod Lleol, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013 gallant o fewn 28 niwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:-

- Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol;
- Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Isabelle Mariani o'r adran hon.

Yn gywir,



Gareth Morgans

**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**

#### **GARETH MORGANS B Ed. M. Sc**

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant  
Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant,  
Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin. SA31 3HB  
Director of Education and Children's Services  
Department for Education and Children,  
Building 2, St. David's Park, Jobs Well Road,  
Carmarthen, Carmarthenshire. SA31 3HB

*Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn croesawu  
gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg  
Carmarthenshire County Council welcomes  
correspondence in Welsh or English*



**BUDDSODDWYR | INVESTORS**  
**MEWN POBL | IN PEOPLE**